

Casglu Data Wi-Fi

Mae'r dudalen hon yn esbonio sut a pham mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu data cysylltu â'r Wi-Fi o ddyfeisiadau symudol ym Merthyr Tudful.

Mae data Wi-Fi yn rhoi gwybodaeth fanwl ar ymwelwyr i ni sydd yn ein cynorthwyo i ddeall pa mor brysur yw'r stryd fawr. **Nid yw'n cael ei ddefnyddio i ddynodi unigolion penodol nac ychwaith i fonitro gweithgaredd pori.**

Mae arwyddion wedi cael eu gosod ymhob lleoliad lle y mae gennym synhwyrdd ymwelwyr yn esbonio'r modd y mae data Wi-Fi yn cael ei gasglu a sut i optio allan.

Yn gryno, rydym yn casglu data ar faint o ddyfeisiadau sy'n cael eu cyfri gan bob synhwyrdd ymwelwyr gan ddefnyddio fersiwn data dan ffugenw o gyfeiriadau MAC.

Rydym yn ceisio deall patrymau symudiad yn y stryd fawr a faint o ymwelwyr sy'n cael eu gweld yn ddyddiol.

Nid ydym yn casglu data ar weithgaredd pori, cwcis, rhifau ffôn nac ar y gwasanaethau Wi-Fi sy'n cael eu defnyddio.

Fodd bynnag, os hoffech optio allan, gallwch wneud hynny drwy droi'r Wi-Fi bant ar eich dyfais, troi'ch dyfais bant neu roi'ch dyfais ar *airplane mode*.

Beth yw data cysylltiad Wi-Fi?

Pan fydd dyfais fel ffôn neu lechen yn defnyddio Wi-Fi bydd y ddyfais yn chwilio'n barhaus am rwydwaith Wi-Fi i gysylltu iddo. Pan fydd y ddyfais yn chwilio am rwydwaith Wi-Fi, bydd y ddyfais yn anfon cais chwilio a fydd yn cynnwys rhif dynodi sy'n unigryw i'r ddyfais a elwir yn gyfeiriad Media Access Control(MAC.)Dyma beth yr ydym yn ei olygu gan 'ddata casglu Wi-Fi.'

Sut rydym yn ei gasglu?

Pan fyddwn yn chwilio am rwydweithiau Wi-Fi i gysylltu â hwy, mae'r ddyfais symudol yn anfon cais chwilio allan. Mae'n synhwyrddion ymwelwyr yn casglu'r ceisiadau chwilio, yn cofnodi'r cyfeiriad MAC, yr amser a'r dyddiad yn goch a gan ba synhwyrdd y cofnodwyd hwy arnynt. Mae'r data hwn yn cael ei encryptio a'i anfon at ein system monitro ymwelwyr.

Mae'r casglu data hwn yn cael ei weithredu'n annibynnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae Proximity Futures, darparwr y system yn sicrhau fod mynediad i'r system yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau cymorth parhaus a chynnal a chadw yn unig.

Sut rydym yn sicrhau na allwn ddynodi pobl?

Ni fydd fodd i ni ddynodi unrhyw unigolion o'r data y byddwn yn ei gasglu. Rydym wedi cynllunio'r broses i ddynodi patrymau ac osgoi dynodi unigolion. Rydym yn ceisio deall sut y mae ymwelwyr, yn gyffredinol yn defnyddio'r stryd fawr.

Mae'r holl ddata a fydd yn cael ei gasglu yn cael ei ddadbersonoli'n awtomatig gan ddefnyddio system ffugenw un ffordd a fydd yn sicrhau na fydd fodd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddynodi unrhyw unigolion. Mae hyn yn digwydd yn syth wedi i'r data gael ei gasglu am y tro cyntaf.

Mae gosod ffug enw yn broses sy'n cael ei defnyddio i ddynodi unigolion mewn set ddata drwy ddefnyddio adnabyddwr unigryw nad sydd yn dynodi eu hadnabyddiaeth 'go iawn.' Mae hyn yn ffordd o ddiogelu preifatrwydd pobl yn unol â [Chod Ymarfer Anonymeiddio y Comisiynydd Gwybodaeth <https://ico.org.uk/media/1061/anonymisation-code.pdf>](https://ico.org.uk/media/1061/anonymisation-code.pdf)

Sylfaen gyfreithiol dros ddefnyddio'r wybodaeth hon

O dan ddeddfwriaeth diogelu preifatrwydd a data, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ond ddefnyddio data personol os oes gennym reswm cywir neu 'sail gyfreithiol' i wneud hynny. Yn achos data cysylltiad Wi-Fi, ein 'sail gyfreithiol' dros brosesu'r data yw'n:

- Swyddogaethau statudol a chyhoeddus
 - Ymgymryd â gweithgareddau sy'n hybu ac annog gwasanaethau a chyfleusterau economaidd yn ddiogel, integredig ac effeithiol.

Am ba hyd yr ydym yn cadw data cysylltiad Wi-Fi?

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cadw unrhyw ddata a fydd yn cael ei gasglu yn unol â'n polisiau cadw data. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn cadw gwybodaeth am yn hirach nag y sydd ei angen am y bwriadau y'i bwriadwyd. Bydd data cysylltiad Wi-Fi sydd wedi ei ddadbersonoli yn cael ei gadw am ddwy flynedd wedi'r tro diwethaf i'r ddyfais gael ei recordio.

Cadw gwybodaeth yn ddiogel

Rydym yn cymryd preifatrwydd ein hymwelwyr o ddifri. Mae amrywiaeth o bolisiau, prosesau a mesurau technegol yn eu lle er mwyn rheoli a diogelu mynediad i a'r defnydd o ddata sy'n ymwneud â chysylltu i'r Wi-Fi.

Mae pob cyfeiriad MAC yn cael ei ddadbersonoli'n awtomatig (drwy ffugenwau) a'u hencryptio er mwyn osgoi dynodi cyfeiriad gwreiddiol y ddyfais. Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fynediad i gyfeiriad MAC gwreiddiol y ddyfais ar unrhyw adeg.

Mae pob mynediad yn cael eu rheoli drwy ddulliau awdurdodi safonol y diwydiant. Mae mynediad yn gyfyngedig i grŵp cyfyngedig o ddefnyddwyr – h.y. dim ond y sawl all gyfiawnhau fod cael mynediad i'r data yn gwbl allweddol i'w swyddogaethau.

Mae'n hallwedd encryptio yn cael eu cadw'n ddiogel mewn rhaglen gyfrifiadurol safonol i'r diwydiant ar gyfer cyfrinachau a rheolaeth allweddol. Rydym hefyd yn defnyddio algorithm hashnod unffordd sydd hefyd yn cwrdd â safonau'r diwydiant. Mae'r holl ddata'n cael ei encryptio pan fydd yn gorrffwys ac yn teithio.

Rhannu gwybodaeth

Mae data cysylltiad Wi-Fi unigol sydd wedi ei ddadbersonoli ar gael yn unig ar gyfer grŵp a reolir o gyflogeion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Proximity Futures. Gall data cyfanredol a ddatblywyd drwy gyfuno data sydd wedi ei ddadbersonoli o nifer o ddyfeisiadau gael ei rannu ag

adrannau eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a chyrrff allanol. Bydd data cyfanredol yn cynnwys niferoedd o ddyfeisiadau yn hytrach na data sy'n cynnwys cyfeiriadau MAC a ffugenwau.

Deallwn, mewn rhai amgylchiadau y gallai'r data fod yn ddefnyddiol i'r heddlu a sefydliadau eraill sy'n defnyddio crynodebau data ymwelwyr. Bydd y math yma o geisiadau'n cael eu trin ar sail achosion unigol er mwyn sicrhau fod unrhyw ddatgeliad yn gyfreithiol.

Gallwn ddatgelu data o dan ffugenwau yn unig gan nad ydym yn cadw'r cyfeiriadau MAC gwreiddiol.

Eich hawliau gwybodaeth

Cyfeiriwch at y canllawiau uchod ar sut i ddewis peidio darparu data cysylltiad Wi-Fi eich dyfais.

Er mwyn deall rhai o fanteision casglu'r data hwn, mae'n bwysig ein bod yn deall patrymau ymweld dros amser. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni ddiogelu'n allwedd hashnod er mwyn cynnal dilyniant y data sydd o dan ffugenw. Byddai felly'n bosib alinio yr un cyfeiriad MAC i'r un ffugenw. Fodd bynnag, yr unig fodd gall XXX bennu ffugenw penodol yw i'r cyfeiriad MAC gael ei ddarparu i ni gan nad ydym yn cadw'r cyfeiriad MAC ei hun.

Nid yw'r hawliau o dan Erthyglau 15 i 20 o Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn berthnasol os nad yw XXX mewn sefyllfa i ddynodi unigolyn penodol oni bai fod yr unigolyn yn darparu gwybodaeth ychwanegol a fyddai'n galluogi adnabyddiaeth. Nid yw darparu cyfeiriad MAC yn unig yn sefydlu cysylltiad pendant rhwng yr unigolyn a'r wybodaeth ymweld sydd o dan ffugenw.

Hyd yn oed os byddai fodd cysylltu ymweliad penodol â chyfeiriad MAC sydd o dan ffugenw ni allwn ragdybio fod yr un unigolyn ym meddiant yr un ddyfais yn ystod pob ymweliad. Ni fyddai'n ymarferol nac yn gymesur i sefydlu pwy fyddai yn cario'r ffôn ar bob un adeg.

Golyga hyn nad oes fodd i ni ddarparu data mewn ymateb i unrhyw gais i gyrchu data Wi-Fi sy'n cael ei greu gan eich dyfais.

Mae Tîm Diogelu Preifatrwydd a Data Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ystyried ac yn cydlynu ymatebion i unrhyw gais sy'n ymwneud ag hawliau unigolyn o dan y GDPR a chwynion gan bobl y mae eu data personol yn cael ei brosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data drwy e-bostio Data.Protection@merthyr.gov.uk